# Canllawiau ar gwblhau cais moeseg ymchwil ar gyfer prosiect tramor.

At ddibenion adolygiad moesegol, diffinnir prosiect fel 'tramor' os yw'n cynnwys cydweithwyr, cyfranogwyr, neu safleoedd ymchwil mewn unrhyw wlad y tu allan i'r DU (gan gynnwys Tiriogaethau Tramor Prydain).

Cynhyrchwyd y ddogfen hon i helpu i arwain holl staff a myfyrwyr Prifysgol Wrecsam drwy wneud cais am gymeradwyaeth foesegol a'r ystyriaethau moesegol i fyfyrio arnynt wrth gynnal prosiect y tu allan i'r DU.

Dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â Pholisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol a Gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer Ymchwil a gynhelir y tu allan i'r DU.

Ar gyfer astudiaethau ar-lein, aml-safle / byd-eang, nid oes angen sicrhau cymeradwyaeth moeseg ymchwil gan bob gwlad.

## Manylion y Prosiect

Bydd Adran 1 yn gofyn i chi am yr holl fanylion perthnasol am eich prosiect.

- Os oes mwy nag un Goruchwyliwr yn rhan o'r cais, gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u rhestru o dan 'Cydweithredwr'.
- Ychwanegwch yr holl gydweithredwyr allanol at y cais.
- Gwnewch yn siŵr bod dyddiad dechrau eich prosiect yn ystyried yr amser i gael cymeradwyaeth foesegol.
- Yr uchafswm amser a ganiateir ar gyfer cymeradwyaeth foesegol yw pum mlynedd.
- Os ariennir y prosiect ymchwil, rhowch fanylion Enw'r Cyllidwr, Swm a Ddyfarnwyd, Rôl ar y Prosiect, a Dyddiad Dyfarnu'r Cyllidwr.

## Cymeradwyaeth Allanol

Lle bo'n bosibl, dylai ymchwil y tu allan i'r DU gael cymeradwyaeth moeseg ymchwil gan bwyllgor moeseg lleol yn y wlad. Mae hyn yn cynnwys prosiectau ymchwil lle mae ymchwilydd Prifysgol Wrecsam wedi'i leoli y tu allan i'r DU.

- Os oes cymeradwyaeth wedi'i sicrhau gan bwyllgor moeseg ymchwil allanol, dewiswch 'Do' i **Ydych chi eisoes wedi sicrhau cymeradwyaeth foesegol ar gyfer y prosiect hwn gan bwyllgor moeseg ymchwil allanol?** * a symud i adran nesaf y ffurflen ar-lein.
- Rhowch fanylion y Pwyllgor Moeseg Ymchwil sydd wedi adolygu a chymeradwyo'r cais moeseg ymchwil, gan gynnwys unrhyw wybodaeth sefydliadol. Dylid llwytho copi o Gylch Gorchwyl y pwyllgor i fyny i'r cais o dan adran 'Atodiadau' y cais ar-lein.
- Rhowch fanylion eich rôl ar y prosiect a gyflwynwyd i'r pwyllgor allanol i'w gymeradwyo. Sylwer na all Pwyllgor Moeseg Ymchwil Wrecsam gydnabod cymeradwyaeth oni bai eich bod wedi'ch rhestru yn y cais neu gymeradwyaeth.

- Yna gofynnir i chi fanylu ar nodau ac amcanion y prosiect. Dylai hwn fod yn grynodeb byr o'r prosiect, gan gynnwys y dulliau a ddefnyddiwyd.
- Rhaid lanlwytho copi o'r cais a gymeradwywyd yn allanol a'r llythyr cymeradwyo i'r ffurflen gais ar-lein, o dan yr adran 'Atodiadau' cyn ei gyflwyno i Bwyllgor Moeseg Ymchwil Wrecsam.
- Sylwer mai dim ond ceisiadau allanol a gwblhawyd yn Gymraeg neu yn Saesneg y gall Pwyllgor Moeseg Ymchwil Wrecsam eu derbyn a'u hadolygu.

## Ystyriaeth Foesegol Dramor

- Rhowch fanylion lleoliad(au) yr ymchwil *

  Yn yr adran hon, dylech roi cymaint o fanylion â phosibl am y safle(oedd) ymchwil, gan gynnwys y wlad, y ddinas/tref, y sefydliad a lle bydd y data gwirioneddol yn cael ei gasglu, h.y. ystafell ddosbarth yr ysgol, labordy, ystafell gyfarfod breifat, ac ati.

- Eglurwch pa ymdrechion rydych chi wedi'u gwneud i sicrhau cymeradwyaeth moeseg ymchwil lleol. *

  Dylai ymgeiswyr ddangos pa brosesau sydd wedi'u rhoi ar waith i geisio sicrhau cymeradwyaeth moeseg ymchwil lleol yn y wlad. Gallai hyn gynnwys adolygu cymhwysedd cyflwyno i Sefydliadau Addysg Uwch lleol, cyfeirio at gofrestr Pwyllgor Moeseg Cenedlaethol Sefydliad Iechyd y Byd, neu gysylltu ag unrhyw sefydliadau anllywodraethol lleol.

- Beth yw'r ystyriaethau diwylliannol, moesegol a chyfreithiol sy'n gysylltiedig â chynnal ymchwil yn y wlad hon? *

  Ni fydd adolygwyr Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn gwybod am ystyriaethau diwylliannol, moesegol, crefyddol a chyfreithiol cynnal ymchwil yn y wlad lle mae eich prosiect yn cael ei gynnal. Yn yr adran hon, rhaid i chi ddangos dealltwriaeth o gynnal prosiect ymchwil sy'n bodloni normau moesegol lleol. Pethau i'w hystyried:

  - Adolygwch y Safonau Rhyngwladol ar gyfer Casglu Ymchwil Dynol, sy'n manylu ar dros 1,000 o safonau ar amddiffyniadau i gyfranogwyr dynol mewn 131 o wledydd, gan gynnwys cyfreithiau, rheoliadau a chanllawiau.
  - Os nad oes cymeradwyaeth moeseg ymchwil leol ar waith, dylech ymchwilio i weld a all sefydliad/mudiad ymchwil lleol neu arbenigwr lleol (er enghraifft, corff anllywodraethol) gynnig arweiniad ar ystyriaethau moesegol, diwylliannol a chyfreithiol y prosiect neu ddarparu llythyr o gefnogaeth.
  - Gall materion moesegol sy'n ymwneud â gwahaniaethau pŵer fod yn fwy amlwg mewn cyd-destun ymchwil rhyngwladol, yn enwedig ymchwil sy'n cynnwys gwledydd incwm isel neu wledydd sy'n profi gwrthdaro ac ansefydlogrwydd gwleidyddol. Dylai ymchwilwyr ystyried unrhyw syniadau tybiedig neu wirioneddol o bŵer a sut y gallai hyn effeithio ar

egwyddorion moeseg ymchwil sylfaenol, ac os oes unrhyw risg i enw da'r Brifysgol neu bryderon diogelwch i'r ymchwilydd/ymchwilwyr neu'r cyfranogwr/wyr.

- Os yw'n cymryd rhan mewn cydweithrediad rhyngwladol, dylai'r ymchwilydd ystyried materion posibl sy'n ymwneud â diogelwch a chymryd y camau angenrheidiol i reoli unrhyw risgiau posibl. Dylai staff a myfyrwyr gyfeirio at y tudalennau gwe ar ddiwydrwydd dyladwy ac ymchwil y gellir ymddiried ynddo i gael rhagor o fanylion. Gall Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol ofyn am arweiniad gan adrannau eraill yn y Brifysgol neu ofyn am arweiniad gan ymgynghorwyr allanol lle bo angen ar brosiect ymchwil rhyngwladol.
- Dylech fod yn ymwybodol o'r broses o reoli cyfranogiad gwirfoddol a chael cydsyniad gwybodus, y gellid ei ystyried yn wahanol mewn gwahanol leoliadau ymchwil rhyngwladol. Er enghraifft, efallai na fydd cydsyniad ysgrifenedig yn cael ei ystyried yn norm diwylliannol, neu efallai y bydd porthorion yn chwarae rhan bwerus wrth benderfynu ar gyfranogiad unigolyn. Dylid mynd i'r afael â goblygiadau cyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol penodol ar gyfer prosesau cydsynio o ran egwyddorion moesegol sy'n ymwneud â hawliau, urddas a chyfranogiad gwirfoddol (Ymchwil Rhyngwladol UKRI).
- Wrth gynnal ymchwil y tu allan i'r DU, dylai staff a myfyrwyr Wrecsam fod yn sensitif i wahaniaethau diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol wrth gynnal ymchwil a'r pwnc ymchwil yr ymchwilir iddo. Dylai ymgeiswyr drafod unrhyw sensitifrwydd posibl i'r pwnc sy'n cael ei ymchwilio yng nghyd-destun y wlad lle mae data'n cael ei gasglu.
- Dylai ymgeiswyr drafod a chynnwys unrhyw ddeunyddiau a ddefnyddir ar gyfer y prosiect ymchwil arfaethedig yn yr iaith y bydd yn cael ei ddosbarthu, yn ogystal â chyfieithiad Saesneg.

- Pa systemau sydd gennych ar waith i sicrhau diogelwch a lles ymchwilwyr wrth weithio dramor *

  Os ydych yn teithio dramor i gynnal ymchwil y tu allan i'r DU, dylech ystyried a oes unrhyw systemau lleol ar waith i'ch cefnogi chi fel ymchwilydd ynghylch materion fel diogelwch ymchwilwyr, datgeliadau o faterion sy'n peri pryder, a systemau ar gyfer adrodd yn ôl os ydych yn ymchwilio i bynciau a allai fod yn sensitif. Dylai mecanweithiau fod ar waith i sicrhau bod gan ymchwilwyr dramor broses gofrestru gyda goruchwylwyr neu reolwyr llinell.

Cynghorir ymchwilwyr i edrych ar wefan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad Brydeinig yn rheolaidd i gael rhagor o wybodaeth a chyngor teithio wrth gynllunio i deithio i safle ymchwil y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

- **A yw'r astudiaeth hon wedi cael unrhyw gymeradwyaeth arall gan unrhyw gyrff rheoleiddio eraill yng ngwlad y safle ymchwil arfaethedig? ***

  Ar gyfer rhai prosiectau ymchwil, yn enwedig astudiaethau clinigol, efallai y bydd angen sicrhau cymeradwyaeth arall cyn y gallwch ddechrau eich prosiect ymchwil. Cyfrifoldeb yr ymchwilydd yw gwirio pa gymeradwyaethau ymchwil sydd eu hangen cyn cyflwyno cais am adolygiad moesegol.

## Rheoli Data

Mae'r adran hon yn gofyn i chi egluro pa ddata y byddwch chi'n ei gasglu a sut rydych chi'n bwriadu storio, diogelu a dinistrio'r data rydych chi wedi'i gasglu.

Pethau i'w hystyried:

- Bydd gan wledydd tramor eu fframweithiau cyfreithiol eu hunain ar gyfer hawliau diogelu data. Dylai eich ceisiadau moeseg ddarparu manylion am y wlad lle cynhelir yr ymchwil a sicrwydd ynghylch sut y caiff y rhain eu rheoli. Ymchwilwyr sy'n gyfrifol am ddarganfod beth yw gofynion diogelu data lleol a rhoi manylion ynghylch dealltwriaeth o'r rhain yn eich cais. Mae Deddfau Diogelu Data y Byd yn ffynhonnell ddefnyddiol ar-lein. Gallai cyfreithiau diogelu data'r DU fod yn fwy cadarn na'r rheini yn y wlad lle rydych chi'n casglu data. Pan fydd data'n cael ei gasglu a/neu ei drosglwyddo y tu allan i'r DU, os nad oes gan y wlad dan sylw unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data neu os gwyddys bod y ddeddfwriaeth hon yn wannach na gofynion y DU, dylai ymchwilwyr gydymffurfio ag egwyddorion GDPR sefydledig o leiaf.
- Dylid lanlwytho a storio data ymchwil ar weinydd y Brifysgol neu Office 365 cyn gynted â phosibl. Dylid storio data ffisegol yn ddiogel a, lle bo angen, ei storio mewn cabinet dan glo.
- Fel arfer, ni fydd data a geir mewn prosiectau israddedig neu ôl-raddedig a addysgir yn cael ei gadw. Mae'r Goruchwyliwr yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ddata ymchwil personol a gesglir yn ystod prosiect o'r fath yn cael ei ddileu.
- Dim ond aelodau o'r tîm ymchwil ddylai gael mynediad at y data.
- Dylai goruchwylwyr gael mynediad at ddata ymchwil myfyrwyr.

Bydd yr adran hon hefyd yn gofyn am gyfrinachedd ac anhysbysrwydd y cyfranogwyr a'r data ymchwil a gasglwyd. Rhaid i chi roi digon o fanylion am y broses o gynnal cyfrinachedd ac anhysbysrwydd a sut bydd y broses hon yn cael ei chyfleu i gyfranogwyr.

## Llywodraethiant

Bydd yr adran hon o'r ffurflen yn gofyn i chi am ganiatadau llywodraethu eraill. Rhaid i chi ddarllen y wybodaeth yn ofalus oherwydd efallai y bydd angen rhagor o gymeradwyaeth neu arweiniad arnoch gan adrannau eraill yn y Brifysgol.

## Atodiadau

Dylai staff a myfyrwyr atodi'r dogfennau perthnasol i'r cais cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo. Mae hyn yn cynnwys hysbysebion recriwtio, asesiadau risg, ffurflenni caniatâd, taflenni gwybodaeth i gyfranogwyr, adnoddau ymchwil, ffurflenni cais a chymeradwyaeth gan bwyllgor allanol.

## Cyflwyno

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol a restrir yn y rhestr wirio cyflwyno cyn dewis 'Cyflwyno'. Bydd yn rhaid i oruchwylwyr adolygu a llofnodi'r cais myfyriwr cyn iddo gael ei gyflwyno i'r pwyllgor perthnasol i'w adolygu.